

emanueljones



Ar Osod

753 Rhodfa Beechley
Caerdydd, CF5 3SJ

755 sq ft (70.10 sq m)

029 2081 1581

www.emanuel-jones.co.uk

- Blaen gwydr
- Uned Fanwerthu Llwr Daeaf
- Dyfynbris £12,000 y flwyddyn

Lleoliad

Mae'r eiddo wedi'i leoli ar Rhodfa Beechley ym maestref Y Tyllgoed, gorllewin Caerdydd. Gellir cyrraedd yr eiddo ar hyd Heol Pentre-baen o'r gogledd sydd yn ei dro yn rhoi mynediad i Heol Llantrisant a Chaserdydd y tu hwnt. Mae'r eiddo wedi'i wasanaethu'n dda gan drafndiaeth gyhoeddus gyda nifer o lwybrau bysiau yn cysylltu â'r ardal. Mae gorsaf drenau Y Tyllgoed 1.2 milltir i'r dwyrain.



Disgrifiad

Mae'r eiddo yn rhan o barêd sy'n cynnwys 4 uned fanwerthu o dan lety preswyl. Mae'r uned sydd ar gael yn elwa o flaen gwyr da gyda chysgodlen diogelwch. Ar hyn o bryd mae wedi'i ffurfwedd i ddarparu ardal aros i'r blaen gyda nifer o ystafelloedd rhanedig sy'n darparu cegin, lle storio ac ystafell driniaeth.

I'r ochr o'r eiddo mae maes parcio cyhoeddus.

Llety

Mae'r eiddo wedi'i fesur ar sail arwynebedd mewnol net gyda'r mesuriadau canlynol:

Disgrifiad	Troedfedd Sgwâr	Metr Sgwâr
Llawr Gwaelod	755	70.10

Yn amodol ar gontact ac argaeledd: Mae Emanuel Jones drostynt eu hunain ac ar ran gwerthwyr neu brydleswyr yr eiddo hwn y maent yn asiantau iddo yn nodi'r canlynol: Mae'r manylion wedi'u gosod fel amlinellad cyffredinol er arweiniad yn unig i ddarpar brynwyr neu brydleswyr, ac nid ydynt yn, nac yn rhan o, gynnig contract. Rhoddir pob disgrifiad, maint, cyfeiriad at gyflwr a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnydd a meddiannu, a manylion eraill, heb gyfrifoldeb ac ni ddylai unrhyw bartion â diddordeb ddibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychioliadau o ffaith, ond rhaid iddynt eu bodloni eu hunain drwy archwilio neu fel arall ynglŷn â chywirdeb pob un ohonynt. Ni fydd unrhyw gyfeiriad at unrhyw wasanaethau, gosodiadau neu ffitiadau gyfystyr â chynrychioli (oni nodir yn wahanol) eu cyflwr neu eu haddasrwydd ar gyfer unrhyw swyddogaeth arfaethedig. Dylai darpar brynwyr neu brydleswyr fodloni eu hunain ynghylch addasrwydd eitemau o'r fath ar gyfer eu gofynion. Nid oes gan unrhyw unigolyn a gyflogir gan Emanuel Jones ganiatâd i wneud na rhoi unrhyw sylwadau neu warant o gwbl o ran yr eiddo hwn.

Defnydd

Rydym yn deall bod yr eiddo ar hyn o bryd â budd defnydd A1 / D1. Gall defnyddiau amgen fod yn addas, yn amodol ar ganiatâd angenrheidiol.

Dylai partion â diddordeb ddibynnu ar eu hymholiadau eu hunain i gadarnhau.

Rhent

Mae'r eiddo ar gael ar rent gyda dyfynbris o £12,000 y flwyddyn.

Telerau'r Brydles

Mae'r eiddo ar gael ar ffurf prydles atgyweirio ac yswirio mewnol newydd am gyfnod o flynyddoedd i'w gytuno.

Ardrethi Busnes

Ar hyn o bryd mae gan yr eiddo werth ardrethol o £4,700. Rydym yn deall ei fod felly'n gymwys ar gyfer rhyddhad 100% ar ardrethi busnes bach.

Dylai partion â diddordeb ddibynnu ar eu hymholiadau eu hunain gyda'r awdurdod lleol perthnasol.

TPY

Mae gan yr eiddo radd TPY o E (114). Gellir cael copi llawn o'r dystysgrif ar gais.

TAW

Nid yw'r eiddo wedi cael ei nodi ar gyfer TAW.

Costau Cyfreithiol

Y parti llwyddiannus i gyfrannu £650 at ffioedd syrfewyr landlordiaid ac o leiaf £750 at ffioedd cyfreithiol (yn seiliedig ar yr amser a dreulir).

Viewing

Strictly by appointment via sole agents Emanuel Jones:-

Contact: Carlo Piazza / Luca Piazza

Email: carlo@emanuel-jones.co.uk
luca@emanuel-jones.co.uk

Subject to Contract and Availability.

Cysylltwch â Ni:
029 2081 1581